

Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-KW-1698-18

Lynne Neagle
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

15 Mai 2017

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 4 Mai, am fewnbwn gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i lunio'r Cod Trefniadaeth Ysgolion cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

Fel y gwyddoch, mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Trefniadaeth Ysgolion. Cyn cyflwyno neu ddiwygio'r Cod, rhaid iddynt ymgynghori ag awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, y Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, ac unrhyw berson arall y maent yn meddwl sy'n briodol.

I mi gyhoeddi fy mwriad i ymgynghori ar ddiwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2016. Wedyn, ar 30 Mehefin 2017, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig i ddweud wrth Aelodau'r Cynulliad am lansiad ymgynghoriad 14 wythnos ar y Cod drafft. Anogais Aelodau'r Cynulliad i ymateb i'r ymgynghoriad ac i annog rhieni, athrawon a chymunedau yn eu hetholaethau i wneud hynny hefyd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 30 Medi 2017.

Bellach, rydym wrthi'n dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Caiff crynodeb ei gyhoeddi cyn toriad yr haf. Yna, bydd rhaid diweddarau'r Cod i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyn ei osod ar ei newydd wedd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a hynny am 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fo'r Cynulliad wedi'i ddiddymu nac unrhyw doriad o fwy na 4 diwrnod). Yna, gall y Cod ddod i rym, oni bai bod y Cynulliad yn penderfynu peidio â'i gymeradwyo. Os na chaiff penderfyniad o'r fath ei wneud cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r Cod diwygiedig ar ffurf ddrafft. Disgwyliwn i'r Cod gael ei gyhoeddi yn yr hydref ac y daw i rym cyn diwedd y flwyddyn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddaf yn anfon drafft o'r Cod ar gyfer y Pwyllgor i chi i gael golwg arno cyn iddo gael ei osod gerbron y Cynulliad.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Kirsty Williams'.

Kirsty Williams AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education